# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli*

***12 Hydref 2010***

***Adroddiad yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig***

***1 – <u>Mordwyo a Charthu</u>***

***1.1*** Archwiliwyd yr holl gymhorthion mordwyo yn Harbwr Pwllheli gan swyddog o Dŷ'r Drindod ar 21 Medi 2010, ac adroddodd yr arolygydd bod y rhan fwyaf o'r cymhorthion mordwyo mewn cyflwr da a bod hyn yn destun canmoliaeth. Cynhaliwyd archwiliad gweinyddol manwl o'r holl gymhorthion mordwyo yng Ngwynedd hefyd gan Dŷ'r Drindod ar 16 Medi 2010.

Yn anffodus, mae peipen arllwyso carthion Hafan y Môr, sy'n perthyn i Ddŵr Cymru, ac sydd wedi'i lleoli'n agos at y traeth yn Marian y De, yn parhau i fod yn y lle anghywir ac mae gofyn ei hamnewid. Mae Tŷ'r Drindod wedi gwneud pob ymdrech i gysylltu â Dŵr Cymru ynglŷn â'r mater a gobeithiwn y bydd y cwmni gwasanaethau yn rhoi sylw i'r gofyn hwn yn ystod misoedd y gaeaf. Mae'r cymorth mordwyo yn farcydd defnyddiol i longau ar eu taith rhwng Abersoch a Phwllheli.

***1.2*** Mae'n hanfodol i staff yr harbwr baratoi a gweithredu rhaglen cynnal a chadw'r harbwr rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr, a fydd yn cynnwys rhaglen gynhwysfawr ar gyfer cynnal a chadw'r cymhorthion mordwyo. Mae gofyn o hyd i'r Uned Forwrol i gynnal a chadw'r holl gymhorthion oedd wedi'u lleoli ar yr adain hyfforddi, ac er bod bwriad i weithredu hyn ers 2008 nid yw'r gwaith wedi'i gyflawni. Tra gosodwyd y cymhorthion mordwyo yn y safleoedd mwyaf ffafriol i'r morwr pan ddyluniwyd y marina, mae gofyn adolygu safle presennol y cymhorthion mordwyo. Mae cael mynediad at y cymhorthion sydd ar yr adain hyfforddi yn waith heriol, ac mae'n hollbwysig i leihau'r risg a wyneba'r staff sy'n cynnal a chadw'r cymhorthion.

***1.2*** Cafodd y Bwi Sianel Fordwyo ei amnewid ar 10 o Orffennaf, ac aed â'r bwi gwreiddiol i'r lan er mwyn ei gynnal a'i gadw. Mae'r ddau fwi Porthladd, marc FlR.2.5s a marc Q.R , sydd wedi eu lleoli ar hyn o bryd ger y fynedfa i'r harbwr, angen eu hatgyweirio'n llwyr, a dylid ystyried ail leoli'r Cymhorthion Mordwyo pwysig hyn yn fuan. Mae lled y sianel wedi culhau oherwydd dyddodion naturiol o ddeunyddiau glan môr ger y fynedfa i'r harbwr. Tra bod peiriannau tir wedi bod yn carthu o dro i dro ger y fynedfa, mae'r Cymhorthion Mordwyo yn parhau i fod yn eithaf pell o'u safleoedd delfrydol, gan na ragwelir ei bod yn ymarferol i garthu lled y sianel hyd at leoliad presennol y ddau Gymorth Mordwyo a soniwyd amdanynt yn flaenorol.

***1.3*** Gan ystyried yr anawsterau posib wrth ail-leoli'r Cymhorthion Mordwyo i'r Porthladd y soniwyd amdanynt yn flaenorol, dylid rhoi ystyriaeth bellach i osod llusernau ar y marcwyr dros dro sy'n dangos lled y sianel wrth fynedfa'r harbwr.

***1.4*** Yn dilyn y gwaith carthu cymharol lwyddiannus, er yn hwy na'r disgwyl, a gynhaliwyd yn yr harbwr bron yn fisol ers mis Ionawr 2010, cynhaliwyd arolwg hydrograffig o'r ardal gyfagos yn ddiweddar, oedd yn cynnwys basn y marina i gyd a'r sianel sy'n arwain at y marina. Ymddengys o'r arolwg hydrograffig fod dyfnder y dŵr yn y sianel ac ym masn y marina yn cydymffurfio, fel y mae nawr, gyda'r dyfnderoedd yn nyluniad gwreiddiol y marina, a bod y gwaith carthu wedi cyrraedd ei nod.

***1.5*** Fe ŵyr aelodau fod y gwaith carthu i fod wedi'i gwblhau cyn diwedd mis Mawrth 2010. Yn anffodus, oherwydd cymhlethdodau technegol a gweithredol a ddaeth i'r amlwg, fe barhaodd y gwaith carthu tan

fis Gorffennaf. Bydd aelodau'n cofio i'r contract i garthu basn y marina a'r sianel sy'n arwain at yr harbwr gael ei roi i 'Keating's Ltd', cwmni a chanddo brofiad mewn gwaith carthu er mwyn cynnal a chadw, a goruchwyliwyd y contract gan 'Mouchelle Ltd',

***1.6*** Cynhaliwyd y prif waith carthu mewn dau gyfnod gweithredu: aeth y cyfnod cyntaf rhagddo gan ddefnyddio *Damen Suction Dredger* oedd wedi'i osod ar gloddiwr 20 tunnell a allai ymestyn yn bell, ac wedi'i leoli ar gwch camlas ar y dŵr. Ar gyfer yr ail gyfnod, gweithiodd y *Versi Dredger* a'r *Damen Suction Dredger* ar y cyd, a bu'r cyfuniad yma'n llwyddiant yn ystod camau cyntaf y'r ymgyrch. Bydd copi drafft o'r arolwg hydrograffig ar gael i'w archwilio yn y cyfarfod.

## *3 - Digwyddiadau*

***3.1*** Eto, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau hwylio mawreddog ym Mhwllheli yn 2010 a bu pwyllgor ac aelodau Clwb Hwylio Pwllheli yn weithredol iawn drwy'r tymor, ac rydym oll yn ddiolchgar iawn am ymroddiad, brwdfrydedd a chydweithrediad y gwirfoddolwyr a'r swyddogion oedd wedi sicrhau bod y digwyddiadau'n rhai llwyddiannus a chofiadwy. Hyd yn hyn, amcangyfrifir bod cyfanswm dyddiau hwylio'r rheini sy'n cymryd rhan yn 4,450, a bydd hyn wedi bod yn fuddiol dros ben i'r economi lleol.

***3.2*** Cafwyd nifer o uchafbwyntiau'n ystod yr haf, a chynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau Cenedlaethol a Rhyngwladol mawreddog ym Mhwllheli. Cynhaliwyd y gystadleuaeth genedlaethol ar gyfer digwyddiad dosbarth y ***Toppers***, Rownd Gymhwysol Pencampwriaeth y Byd ***'420'***, a dosbarth Cenedlaethol ***'UK Fin'*** yno, ac roedd pob digwyddiad yn llwyddiant ysgubol. Yn 2011 caiff un o'r digwyddiadau dingi mwyaf yn y DU, sef y digwyddiad dosbarth ***'Optimist'*** Cenedlaethol, ei gynnal yn ystod mis Awst a disgwylir i dros 500 dingi '*Optimist'* gymryd rhan. Gan ystyried mai digwyddiad ieuenctid yw hwn, bydd nifer sylweddol o ymwelwyr yn yr ardal gan fod y digwyddiad yn denu teuluoedd o bob rhan o'r DU ac Ewrop i'r ardal. Nid yw hwn ond un o nifer o ddigwyddiadau a fydd yn cael eu cynnal ym Mhwllheli yn 2011.

***3.3*** Rhoddwyd gwobr fawreddog y Faner Las Rhyngwladol i draeth Pwllheli a Hafan Pwllheli yn 2010, ac enillodd Hafan Pwllheli'r wobr *"Five Anchors"* yn ogystal. Enillodd draeth Glandon y wobr Arfordir Gwyrdd, a bu'r cais am Wobr Traeth Gwledig i draeth Glandon yn llwyddiannus hefyd.

Os bydd ansawdd y dŵr ymdrochi'n cyrraedd y safon ofynnol y tymor hwn, bydd yr Uned Forwrol yn cyflwyno cais am Wobr Traeth ar gyfer 2011, i Cadw Cymru'n Daclus ym mis Tachwedd.

O ystyried y glaw cymharol drwm a gafwyd yn ystod yr haf, mae'n bosib na fydd rhai traethau yng Ngwynedd yn cyrraedd y gofynion o ran ansawdd y dŵr. Mae canlyniadau cychwynnol yr ansawdd dŵr yn dangos ei bod yn bosib na fydd ansawdd y dŵr ymdrochi ar rai traethau yn cyrraedd y safon ofynnol. Fodd bynnag, nid yw'r cyfnod samplu wedi dod i ben eto, a bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn cadarnhau canlyniadau Ansawdd y Dŵr Trochi tua diwedd y flwyddyn.

Cynhaliwyd digwyddiad poblogaidd 'Wakestock' yn yr harbwr mewnol ac ar brif draeth Abersoch o'r 2 i'r 4 o Orffennaf 2010. Bu'r tywydd yn ffafriol iawn, gyda miloedd o ymwelwyr yn gwylio'r digwyddiad o Gei'r Gogledd. Bu digwyddiad Gŵyl Bwyd Tir a Môr Llŷn, sy'n mynd yn fwyfwy poblogaidd, yn llwyddiant mawr hefyd, a chynhaliwyd ef o'r 29 i 30 o Fai 2010.

## *4 – Ystadegau'r Harbwr*

***4.1*** Fel y nodir yn y tabl yn yr atodiad, cofrestrodd **965** o Fadau Dŵr Personol gyda Chyngor Gwynedd yn 2010. Mae hyn yn cymharu gyda **892 am yr un cyfnod** yn 2009, cynnydd o **73** yn 2010. Cofrestrodd **1389** o gychod pŵer gyda Chyngor Gwynedd gyda mwyafrif y cychod, cyfanswm o **714**, yn cofrestru drwy ohebiaeth uniongyrchol gyda'r Swyddfa Forwrol.

Tra bod rheolaeth cychod pŵer wedi gwella, mae nifer fechan o ddefnyddwyr yn parhau i beidio cydymffurfio â'r rheoliadau.

4.2 Nodir bod nifer y Cerbydau Dŵr Personol a'r cychod pŵer a gofrestrwyd yn swyddfa'r Harbwr ym Mhwllheli ac ar y traeth yn Abersoch yn 2010 eto'n debyg i gyfanswm y niferoedd a gofrestrwyd yn **2009**. Fel y nodwyd yn y tabl, cofrestrodd **160** o gychod pŵer a **63** Cerbyd Dŵr Personol eu trwydded yn Harbwr Pwllheli, gyda **217** o gychod pŵer a **124** Cerbyd Dŵr Personol yn cofrestru ar draethau Abersoch, Warren a Machroes. Mae'r ffi cofrestru ar gyfer cychod pŵer a Cherbydau Dŵr Personol yr un fath â'r llynedd, heb gynnydd ar gyfer chwyddiant blynyddol. Arhosodd y ffioedd cofrestru yn ***£15.00*** ar gyfer cais drwy'r post, neu gallai'r ymgeisydd gofrestru ar y traeth yn uniongyrchol am ffi uwch o ***£20.00***. Erys y ffioedd lansio yn ***£12.00*** y dydd neu ***£130.00*** am y tymor. Gan gofio'r cynnydd mewn TAW yn 2011, rhagwelir y bydd yn rhaid cynyddu'r ffioedd er ni fydd hyn yn effeithio ar incwm net Cyngor Gwynedd.

4.3 Noda'r tabl yn yr atodiad bod ***140*** o gychod pleser wedi angori yn yr harbwr eleni, o gymharu â ***151*** yn 2009. Felly, defnyddiwyd **77%** o'r angorfeydd, sef gostyngiad o ***1%.*** O'r angorfeydd hyn, defnyddiwyd ***52%*** ohonynt gan breswylwyr lleol sy'n byw yng Ngwynedd ar sail barhaol, a ***48%*** gan bobl sy'n byw y tu allan i'r sir. Yn y marina, roedd ***99%*** o'r angorfeydd yn cael ei defnyddio, gyda'r ddwy angorfa sy'n weddill yn cael eu cadw ar gyfer cychod oedd yn ymweld yno. Mae nifer yr unigolion sydd wedi'u cofrestru ar restr aros y marina yn ***195*** ar hyn o bryd.

4.4 Yn ystod misoedd yr haf, roedd nifer o gychod yn ceisio lansio ar y traethau yn Abersoch a Morfa Bychan yn ogystal wrth ddefnyddio Trwyddedau Cofrestru ffug. Er bod y trwyddedau cofrestru ffug hyn yn rhai o ansawdd da, adnabu'r staff ym Morfa Bychan y gwahaniaeth rhwng y rhai hynny a gyflwynwyd gan Gyngor Gwynedd o gymharu â'r trwyddedau ffug ac mae gwyliadwriaeth y staff morwrol yn glodwiw iawn. Rhoddwyd gwybod i Awdurdod yr Heddlu a rhoddodd y Swyddogion gymorth i staff yr harbwr trwy archwilio cychod eraill yn yr ardal gyfagos. Cymerwyd oddeutu ugain trwydded ffug ymaith.

## *5* ***Cyllidebau***

***5.1*** Er gwybodaeth i'r aelodau, mae'r adroddiad cyllid ar gyfer Harbwr Pwllheli a Hafan Pwllheli ar gyfer y flwyddyn ariannol ***2009/10*** wedi'i atodi. Mae'r targedau incwm a'r targedau arian gwariant ar gyfer pob harbwr a thraeth ar gyfer y flwyddyn ariannol ***2010/11*** wedi'u hatodi hefyd.

***5.2*** Oherwydd y tywydd gwael a gafwyd yn ystod mis Awst eleni, mae'n debygol iawn na fydd penawdau incwm yr Uned Forwrol yn cyrraedd eu targed incwm yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd angen bod yn hynod wyliadwrus yn ystod y misoedd nesaf er mwyn sicrhau nad yw'r gwasanaeth yn rhwymo mwy o arian na'r hyn sydd yn y gyllideb. Bydd yr Harbwrfeistr a'r Swyddog Morwrol – Harbyrau yn darparu rhaglen gynnal a chadw manwl ar gyfer tymor yr hydref er mwyn adnabod blaenoriaethau gwariant yn harbwr Pwllheli.

***5.3*** Mae pryderon ynglŷn ag incwm targed harbwr Pwllheli eleni a bydd Aelodau'n nodi o'r atodiadau mai'r targed incwm cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol yw ***£118,280***. Mae'r incwm o harbwr Pwllheli yn ***£98,510*** bellach, sef ***£19,770*** yn is na'r targed. Ni ragwelir y bydd yna ychwanegiad sylweddol i'r incwm rhwng mis Hydref a mis Mawrth 2011.

***5.4*** Bydd aelodau'n nodi y dengys yr atodiadau mai ***£1,562,630*** yw'r targed incwm ar gyfer Hafan Pwllheli ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol. Cyfanswm yr incwm hyd yn hyn yw ***£1,45,393***, sef ***£117,236*** yn fyr erbyn diwedd mis Awst 2010. Er y diffyg presennol, disgwylir cyrraedd y targed incwm yn Hafan Pwllheli.

### ***5.5*** ***Ffioedd a Chostau ar gyfer 2011/12***

Yn ystod yr wythnosau i ddod, bydd yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yn adolygu'r ffioedd cyfredol, ac yn cynnal ymchwiliad i'r farchnad er mwyn argymell ffioedd a chostau i harbyrau, marinau a thraethau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Disgwylir y bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno o'r Swyddogion Statudol a'r Arweinydd Portffolio er mwyn ei gymeradwyo.

O ganlyniad i ansicrwydd a chyflwr bregus yr economi'n gyffredinol, ni ddisgwylir y bydd ffioedd a chostau angori yn Hafan Pwllheli a Harbwr Allanol Pwllheli yn cael eu codi tu hwnt i'r chwyddiant ym mlwyddyn ariannol 2011/12. Rhoddir ystyriaeth i ddiwygio'r system bresennol o godi tâl am angori'n ystod y gaeaf a diwygio'r costau'n ymwneud â thrydan yn ystod cyfnod y gaeaf. Fodd bynnag, bydd rhaid ystyried yn ofalus gan y bydd unrhyw gynnydd mewn TAW o fis Ionawr 2011 ymlaen yn cynyddu'r gost i'r cwsmer ond heb fod yn cynyddu refeniw net i'r Cyngor.

Gan fod yna newidiadau sylweddol yn ymwneud â rhai angorfeydd yn yr harbwr allanol, bydd rhaid i'r Uned Forwrol unwaith eto roi ystyriaeth i gwtogi rhai ffioedd gan fod dyfnder y dŵr o dan y cilbren yn lleihau. Pwysleisir fod silt naturiol i'w ddisgwyl yn yr ardal hon, ac nad yw'r silt o ganlyniad i ddiffyg carthu.

## *6.0 Cynnal a Chadw Angorfeydd*

***6.1*** Yn ystod misoedd y gaeaf, bydd yr Harbwrfeistr a'r Swyddog Morwrol – Harbyrau, yn cydlynu'r gwaith o archwilio a chynnal a chadw angorfeydd yr harbwr wrth baratoi ar gyfer 2011. Bydd yr Uned Forwrol yn archwilio angorfeydd yn ardaloedd sychaf yr harbwr.

***6.2*** Bydd pob angorfa wlyb arall o dan awdurdod harbwr Pwllheli yn cael ei harchwilio a'i chynnal gan gontractwr a benodwyd, a disgwylir y bydd y gwaith yn dechrau ym mis Ionawr 2011. Bydd contractwyr priodol cymwys yn cael eu gwahodd i dendro am y gwaith. £1,850 oedd y gost o archwilio a chynnal angorfeydd yn yr harbwr allanol yn 2010. Mae Cyngor Gwynedd wedi buddsoddi'n sylweddol mewn cynnal a chadw cadwyni, a phrynu rhai newydd yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ac ni ragwelir y bydd angen buddsoddiad sylweddol yn 2010/11.

***6.3*** Caiff copi manwl o'r adroddiad cofnodi gwasanaeth angorfeydd ei ddosbarthu i Aelodau'r pwyllgor yn y cyfarfod. Bydd Aelodau yn nodi'r gwelliant yn ansawdd a safon yr adroddiad archwilio a ddarparwyd gan y contractwr penodedig yn 2009/10.

## *7.0 Tymestl Arw mis Gorffennaf 2010*

***7.1*** Yn ystod nos ac yn gynnar ar fore dydd Iau'r 15 a dydd Gwener yr 16 o Orffennaf 2010, trawyd harbyrau a thraethau Gwynedd gan dymestl arw. Cofnodwyd cyflymder gwynt o hyd at 85 milltir yr awr yn Aberdaron yn ystod oriau mân 16 Gorffennaf ac amcangyfrifir bod cyflymder y gwynt yn harbwr mewnol Porthmadog wedi cyrraedd grym 10 ar raddfa *beaufort*. Roedd hon yn dymestl eithriadol, ac ni ragwelwyd hi er bod gwyntoedd cryfion.

***7.2*** Dim ond mân ddifrod a gafwyd ym Mhwllheli, ond galwyd staff yr Uned Forwrol i Borthmadog am hanner nos gan yr Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau. Roedd y staff yno cyn 01.00 yn ogystal â chriw Bad Achub Cricieth ac aelodau'r Asiantaeth Forwrol a Gwarchod y Glannau.

***7.3*** Wrth gyrraedd yr harbwr, nodwyd bod cwch pŵer mawr wedi dod yn rhydd o'i angorfa oedd wedi'i lleoli ymhellach tua'r môr, ac roedd perygl i'r cwch gael ei wthio ar y bontffordd. Gosodwyd y cwch mewn angorfa dros dro ac yn ffodus daliodd yr angorfa'n sownd nes i'r dymestl dawelu a gosodwyd y cwch yn ei angorfa barhaol fore trannoeth. Erbyn 03.00 roedd y dymestl wedi tawelu a diogelwyd pob cwch oedd wedi dod yn rhydd.

***7.4*** Dychwelodd staff yr Uned Forwrol i'r harbwr am 08.00 a dechreuwyd y gwaith o osod nifer o gychod yn eu hangorfeydd ar unwaith. Roedd difrod sylweddol i nifer o gychod. Wrth edrych ar y sefyllfa, daeth yn amlwg fod y rhaffau angori wedi dod yn rhydd un ai o flaen neu starn nifer o gychod. Roedd

yr offer angori, o’r codwr angor i'r angorau mewn un darn, sy’n dangos pa mor effeithiol yw ymrwymiad Cyngor Gwynedd i fuddsoddi i gynnal a chadw’r angorfeydd wedi bod mewn blynyddoedd diweddar.

## ***8.0*** ***Cyfarfodydd Pwyllgorau Harbwr***

***8.1*** Cyflwynwyd cais i Gyngor Gwynedd gan Gyngor Cymuned Aberdyfi yn gofyn i Gyngor Gwynedd ystyried cyflwyno un cyfarfod arall o'r Pwyllgor Harbwr i galendr holl bwyllgorau'r Cyngor, sydd wedi'u rhaglennu'n barod. Gofynna Cyngor Cymuned Aberdyfi i'r cyfarfod ychwanegol o'r pwyllgor harbwr fod yn gyfarfod ar y cyd o gynrychiolwyr pob Pwyllgor Harbwr ac iddo gael ei gynnal ar amser hanner ffordd rhwng y Pwyllgorau a raglennwyd yn barod, un ai yn ystod misoedd yr haf, neu ar ddiwedd mis Rhagfyr/dechrau mis Ionawr.

***8.2*** Atgoffir aelodau bod cynrychiolwyr o’r Pwyllgorau Harbwr eraill yn aelodau cyfetholedig o bob un o’r Pwyllgorau Harbwr yn barod, ac y cyflwynwyd y cynllun hwn gan yr Uned Forwrol a pharciau Gwledig er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth sy’n berthnasol i bob harbwr yn cael ei rhannu rhwng y Pwyllgorau. Gwahoddir cynrychiolwyr o Bwyllgorau Harbwr eraill i fynychu gyda’r bwriad o raeadru’r wybodaeth yn uniongyrchol i’r Pwyllgorau Harbwr hynny y maent yn eu cynrychioli.

***8.3*** Gofynnir am safbwynt yr Aelodau o ran cynnig Cyngor Cymuned Aberdyfi i sefydlu cyfarfod ar y cyd o'r holl Bwyllgorau Harbwr yn ychwanegol i'r cyfarfodydd presennol o'r Pwyllgor Harbwr a gynhelir pob chwe mis. Barn yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yw bod y system bresennol yn gweithredu yn unol â’r Adolygiad Porthladdoedd Bwrdeistrefol ac yn galluogi i Aelodau dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ac i gyfrannu a chyflwyno sylwadau ar God Diogelwch Morol Porthladdoedd yr harbwr perthnasol.